Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin  y Graig**

**Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd**
**Llanfair Dyffryn Clwyd**
**Ruthin**
**LL15 2RU**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âCylch Meithrin  y Graig

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Y Graig |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Gorffennaf 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema gofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Mae plant yn hapus ac yn fodlon. Maent yn weithgar, yn chwilfrydig ac yn mwynhau gwneud eu dewisiadau chwarae a dysgu eu hunain. Mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn  datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn briodol. Mae ganddynt ymagwedd gynnes a chyfeillgar tuag ofalu am y plant. Mae staff yn trefnu gweithgareddau diddorol ac yn annog plant i chwarae yn yr awyr iach i ddatblygu eu sgiliau corfforol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Maent yn trefnu ardaloedd dysgu deniadol y tu mewn a thu allan. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac mae digon o le i blant archwilio a chwarae'n annibynnol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed. Maent wedi adeiladu tîm staff da. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i gwrdd â rheoliadau.

## Llesiant

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus gan yr ystyrir eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion. Mae gan y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt.

Mae plant yn mwynhau cyflwyno eu hunain a dangos pwy yw eu ffrindiau. Caiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a'u gweithreu. Er enghraifft, dywedodd plentyn nad oedd yn barod i dynnu ei gôt a parchodd y staff ddewis y plentyn. Gwnaethant gais i'w hoff stori gael ei darllen iddynt ac ymatebodd y staff yn syth a darllen y stori iddynt.

Mae plant yn setlo'n gyflym wrth iddynt gael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn dangos sut maent yn golchi eu dwylo cyn prydau bwyd ac yn paratoi eu hunain yn dda ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

Mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn ymarfer moesau da ac yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser snac. Mae plant yn cydweithredu'n dda i dacluso eu teganau. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, roeddent yn rhannu offer y gegin fwd i cymryd eu tro i stwnsio'r pridd cyn ei osod yn y sosban.

Mae plant yn weithgar ac yn chwilfrydig. Maent yn mwynhau archwilio, gan ddilyn eu diddordebau eu hunain a gwneud dewisiadau. Er enghraifft, roedd plentyn yn frwdfrydig wrth ddysgu am siapiau gwahanol ac yn cymryd ei amser i dynnu llun diemwnt. Mae plant eraill yn mwynhau ymarfer eu sgiliau llawysgrifen ac yn dangos i'w ffrind yn hyderus sut i ysgrifennu'r rhif pedwar. Bu criw o ffrindiau'n brysur yn pigo propiau bwyd bychain ac yn eu gosod mewn powlenni o'r un lliw. Yn ystod amser cylch roedd plant yn rhannu eu teimladau yn effeithiol ac yn dweud wrth staff pam eu bod yn teimlo'n hapus a pham eu bod yn teimlo'n flinedig. Roedd y plant yn canu eu hoff ganeuon gyda brwdfrydedd.

Mae plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu, dysgu a meithrin eu sgiliau annibyniaeth, sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gwneud pethau drostynt eu hunain.. Er enghraifft, roedd dau ffrind yn canolbwyntio wrth iddynt edau siapiau pasta a siapiau ceirios i wneud cadwyn hir. Roedd plant eraill yn mwynhau pedoli eu beiciau yn yr awyr iach a chwarae offerynnau cerdd wrth gerdded ar draws yr iard.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y them hon yn llawn.

Mae’r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau yn amserol. Maent wedi meithrin perthynas hyfryd gyda’r plant ac maent yn eu canmol yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu eu llwyddiannau’n frwdfrydig. Mae staff yn gofalu am y plant gyda dull cynnes a chyfeillgar. Mae’r rhyngweithio rhwng y plant yn cael ei reoli’n dda a mae’r staff wedi creu awyrgylch cartrefol a gofalgar sy’n hybu lles a dysgu’r plant.

Mae gan mwyafrif y staff ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn gweithredu'r y rhan fwyaf o'r polisïau yn addas. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff yn hyderus ynghylch gweithdrefnau diogelu ac mae angen anogaeth ar ysgogi rai i ymateb. Ers ein hymweliad, mae'r unigolyn cyfrifol  wedi cadarnhau bod staff wedi'u cofrestru ar hyfforddiant diogelu i ddatblygu eu dealltwriaeth. Mae staff yn cofnodi presenoldeb plant a phwy sy’n gofalu amdanynt yn gyson. Nid yw pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Ers ein hymweliad, mae'r unigolyn cyfrifol  wedi cadarnhau bod staff wedi mynychu hyfforddiant. Cynhelir driliau tân a chofnodir y canlyniadau i gynorthwyo gwelliannau ymarferol. Mae staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ond nid ydynt wedi rhoi camau mewn lle i  sicrhau bod pob rhiant a gofalwr yn arwyddo'r rhain i dystio eu bod wedi cael gwybod. Ers ein hymweliad, mae'r person a gofal wedi cadarnhau a chyflwyno tystiolaeth foddhaol  ei bod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn yn syth. Mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae staff yn sicrhau bod plant yn cael snac iach a bod dŵr ar gael. Maent yn trefnu gweithgareddau chwarae difyr yn yr awyr agored, gan annog plant i chwarae yn yr awyr iach er mwyn meithrin eu sgiliau corfforol. Mae staff yn annog plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol mewn modd cadarnhaol.

Mae staff yn trefnu gweithgareddau diddorol ac yn rhoi cymorth i blant ddatblygu eu chwarae a'u dysgu mewn modd cadarnhaol. Maent yn gwahodd plant i rannu eu hoff a’u cas bethau ac mae hyn yn arwain at drafodaethau bywiog.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y them hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall plant chwarae a dysgu yn briodol.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol. Mae asesiadau risg wedi'u gwella ac mae'r rhain yn tynnu sylw at y risgiau posibl i blant a pha fesurau sydd ar waith i ddileu'r risgiau hyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb am sut i ddelio gydag argyfyngau. Maent yn sicrhau bod staff yn goruchwylio plant yn addas. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau presennol i blant ddefnyddio'r toiled yn darparu preifatrwydd. Mae'r person a gofal yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac wedi sicrhau bod sgrin preifatrwydd yn cael ei defnyddio, nes bod trefniadau gwell wedi'u trefnu.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod gosodiad yr ystafell chwarae ar ardal awyr agored yn hyrwyddo annibyniaeth y plant drwy eu galluogi i symud o gwmpas yn rhydd gan wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae ystod eang ac amrywiol o deganau ac adnoddau ar gael ac mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod gan blant fynediad at ddodrefn o faint priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y them hon yn llawn.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cynnig gofal cynnes, sy'n creu ymdeimlad o berthyn ymhlith y plant a'r staff. Mae'r agwedd gadarnhaol yma yn ysgogi plant i wneud eu gorau. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i gwrdd â rheoliadau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwella eu datganiad o bwrpas. Mae’r ddogfen yma nawr yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i helpu rhieni a gofalwyr i wneud dewis gwybodus am y gofal a ddarparerir. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser ar gael i staff eu defnyddio.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn parhau i beidio â hysbysu AGC am newidiadau a wnaed i'r lleoliad. Mae hyn yn rhoi iechyd a llesiant plant mewn perygl ac rydym felly wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae’n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwerthuso gweithgareddau'r lleoliad ond heb werthuso ansawdd y gofal a ddarperir i fodloni gofynion. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y staff dystysgrif DBS gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i gasglu i dystio bod staff yn addas i weithio gyda phlant.  Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad a’u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Dywedodd staff wrthym fod goruchwyliaeth yn cael ei gynnal yn anffurfiol a'u bod yn aros am eu harfarniad. Dywedodd y person â gofal wrthym ei bod am gael chefnogaeth yn y dyfydol gan y pwyllgor i'w helpu i gynnal goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd gyda staff. Yn ystod ein hymweliad roedd diffyg tystiolaeth i ganfod bod staff wedi cael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu hymarfer a'u datblygiad proffesiynol mewn ffordd ffurfiol. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau. Ers ein hymweliad, mae'r unigolyn cyfrifol  wedi cadarnhau bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Dywedodd rhieni y buom yn siarad â nhw eu bod yn hapus iawn gyda'r lleoliad a'u bod wrth eu bodd gyda chynnydd eu plant i siarad Cymraeg.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Mae angen i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno'r hysbysiadau perthnasol am y newidiadau i'r lleoliad i AGC drwy ei gyfrif ar-lein. | Heb ei Chyflawni |
| 30 | Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau, gan ddangos tystiolaeth eu bod wedi rhoi gwybod i'r rheini. | Cyflawnwyd |
| 24 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod gan y staff dystysgrif cymorth cyntaf addas. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif cymorth cyntaf addas a chyfredol. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 25 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y staff yn dilyn canllawiau rheoli heintiau yn ymwneud â gweithdrefnau golchi dwylo ac nid yw wedi sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu'r lleoliad a'r gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn llawn. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn deall ac yn dilyn y canllawiau rheoli heintiau yn eu hymarfer. Mae angen diweddaru'r asesiadau risg i adlewyrchu'r lleoliad a'r gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt. Mae angen iddo nodi'r risgiau hynny a rhoi mesurau effeithiol ar waith i'w rheoli. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod yn defnyddio systemau a phrosesau effeithiol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir sy'n bodloni gofynion y rheoliad, yn barhaus. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chasglu yn ffeiliau cyflogaeth y staff. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n ystyrlon ac yn rheolaidd. | Newydd |
| 20 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod gan y person â chyfrifoldeb dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn gwneud cais am wiriad | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd manylach. | |
| 27 | Ni allai'r unigolyn cyfrifol ddangos tystiolaeth bod nifer digonol o staff cymwys, profiadol a medrus yn gofalu am y plant. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno cymwysterau gofal plant a chwarae'r staff i AGC. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 20 - Child protection | Adolygu gweithdrefnau diogelu gyda'r holl staff i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth hyderus o'r polisi diogelu a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. |
| Standard 22 - Environment | Sicrhau bod y toiled yn rhoi preifatrwydd i blant ac yn briodol ar gyfer oedran y plentyn. |

Where we think it helpful, we may make best practice recommendations. These are to encourage settings that are doing well to become even better at helping children thrive.

| **Arfer Gorau** |
|---|
| Argymhelliad (argymhellion) |
| Sicrhau fod gan staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad bob amser. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/07/2023